YR NUT

Newyddion yr NUT

RHIFYN ARBENNIG PENSIYNAU

Hydref 2010

Yr undeb mwyaf ar gyfer athrawon

www.teachers.org.uk

Gweithredwch nawr er mwyn diogelu eich pensiwn

Ar y 7fed o Hydref, adroddodd John Hutton i'r Llywodraeth ar ddyfodol pensiynau'r sector gyhoeddus. Ei farn ef oedd y dylai gweithwyr yn y sector gyhoeddus dalu mwy tuag at eu pensiynau ac y dylai cynlluniau pensiwn cael eu "diwygio" mewn ffyrdd eraill hefyd a fyddai yn torri eich hawliau pan yn ymddeol yn ddifrifol.

Costau ychwanegol annerbyniol

Mewn cyfnod sy'n gweld cyflogau yn y sector gyhoeddus yn cael eu rhewi, fe fyddai ychwanegu 2 y cant i gyfraniadau pensiwn yn costio £30 y mis i athro newydd gymhwyso a dwywaith hynny i athro dosbarth profiadol ar bwynt 3 o'r Uwch Raddfa Gyflog.

Gallai newid o RPI i CPI gostio dros £70 mil i chi

Mae'r Llywodraeth eisoes yn awgrymu newidiadau eraill a fyddai'n lleihau eich pensiwn trwy ei gysylltu i gyfradd chwyddiant CPI yn hytrach na RPI. Fe fyddai hyn yn lleihau eich incwm pensiwn o sawl mil o bunnoedd.

Fe fyddai athro wedi ymddeol oedd yn derbyn pensiwn £10,000 yn colli £35,000 dros gyfnod ymddeoliad cyfartalog, tra y byddai athro sy'n gweithio o hyd ac yn ymddeol ar bensiwn o £20,000 yn colli dros £70,000.

Mae pensiwn athrawon yn deg ac yn fforddiadwy

Gwnaethpwyd newidiadau i Gynllun Pensiynau Athrawon yn 2007 oedd yn golygu bod pob athro yn cyfrannu mwy, codwyd yr oedran ymddeol i athrawon newydd i 65 a roddwyd terfynau ar gyfraniadau gan gyflogwyr. Mae'r newidiadau hyn yn cyfyngu costau hir dymor y cynllun i fod yn gyfwerth neu yn is na'r lefel bresennol.

Gweithredwch nawr

Rydym yn eich annog i gysylltu â'ch AS a gofyn iddyn nhw i wrthwynebu'r toriadau arfaethedig i bensiynau athrawon. Ewch i www.teachers.org.uk/notocuts nawr er mwyn e bostio eich AS

Mae eich pensiwn yn sefyll rhyngoch chi a thlodi ar ôl ymddeol. Dydy pensiynau athrawon ddim yn wastraffus – Pensiwn cyfartalog athro ar hyn o bryd yw £10,000. Dyma eich iawndal, a dalwyd gennych chi a'ch cyflogwr am oes o addysgu.

E bostiwch eich AS nawr yn www.teachers.org.uk/notocuts

Meddai Christine Blower, Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT:

"Ni fydd lleihau pensiynau'r sector gyhoeddus o gymorth i weithwyr yn y sector breifat wedi iddynt ymddeol. Symud y baich o gefnogi mwy o bensiynwyr y wladwriaeth yn unig fydd yn digwydd. Mae angen pensiynau call i bawb."

Ein nod: un undeb ar gyfer athrawon i gyd

Ymunwch â'r NUT Mynnwch air â'ch cynrychiolydd ysgol

www.teachers.org.uk

Ffoniwch nawr i ymuno

Llinellau Brys Ymaelodi **0845 300 1669**

neu **020 7380 6369**

Llinell Gymorth Manylion **0845 300 1666**

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk – 7052w/10/10